YN WYNEB HAUL LLYGAD GOLEUNI

GORSEDD Y BEIRDD

Trefniadau at

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU

BLAENAU GWENT A BLAENAU'R CYMOEDD

Gorffennaf 31 – 7 Awst 2010

Nid ei chledd ond ei gweddi – a'i harddwch
A rydd urddas arni;
Mae nodded tu mewn iddi
I'r Gymraeg rhag ei marw hi.

Archdderwyddon Cymru ers 1888
(Yn dangos blynyddoedd eu swydd)

CLWYDFARDD 1888-1894
HWFA MÔN 1895-1905
DYFED 1906-1923
CADFAN 1923-1924
ELFED 1924-1928
PEDROG 1928-1932
GWILI 1932-1936
J.J. 1936-1939
CRWYS 1939-1947
WIL IFAN 1947-1950
CYNAN 1950-1954
DYFNALLT 1954-1957
WILLIAM MORRIS 1957-1960
TREFIN 1960-1962
CYNAN 1963-1966
GWYNDAF 1966-1969
TILSLI 1969-1972
BRINLI 1972-1975
BRYN 1975-1978
GERAINT 1978-1981
JÂMS NICOLAS 1981-1984
ELERYDD 1984-1987
EMRYS DEUDRAETH 1987-1990
AP LLYSOR 1990-1993
JOHN GWILYM 1993-1996
DAFYDD ROLANT 1996-1999
MEIRION 1999-2002
ROBYN LLŶN 2002-2005
SELWYN IOLEN 2005-2008
DIC YR HENDRE 2008-2009
JIM PARC NEST 2010-

Archdderwydd	Y Prifardd Jim Parc Nest
Dirprwy Archdderwydd	Y Prifardd Selwyn Iolen
Cyn-Archdderwyddon	Y Prif Lenor Robyn Llŷn, Y Prifeirdd Meirion, John Gwilym, Emrys Deudraeth, Elerydd, Jâms Nicolas, Geraint
Cofiadur	Y Prifardd Penri Tanad
Arwyddfardd	Dyfrig ab Ifor
Trysorydd	Eric Wern Fawr
Ysgrifennydd Aelodaeth	Huw Tomos
Swyddog Cyfraith	Y Prif Lenor Robyn Llŷn
Ceidwad y Cledd	Robin o Fôn
Trefnydd yr Arholiadau	Gwyn o Arfon
Trefnydd Cerddoriaeth	Allan Cennech
Arolygydd y Gwisgoedd	Siân Aman
Swyddog Cysylltiadau Celtaidd	Y Prifardd a'r Prif Lenor Mererid

Bwrdd yr Orsedd:
Y swyddogion ynghyd â'r aelodau a ganlyn: Meredydd Ardudwy, Aled Llwyd, Madge, Eigra, Alwyn Afan, Geraint Llifon, Nan Heiflyn, Gwynn ap Gwilym, Tegwyn, Dorothy Bwlch-y-Ffordd, Alun Guy a Cefin

Cymrodyr yr Eisteddfod (o blith y gorseddogion):
Robert Alun, Aled Llwyd, Gwilym Esmor a Jâms Nicolas.

Dan Nawdd Duw a'i Dangnef
y cyferfydd Gorsedd Beirdd Ynys Prydain

GORYMBIL AM HEDDWCH

A ddatganwyd gan Iolo Morganwg ger bron Beirdd Ynys Prydain yng Ngorsedd Gyfarch ar Fryn Dinorwig yn Arfon ac yn yr Alban Elfed, pan oedd Oed Crist yn 1799.

Blin ym mhob cwr, cyflwr caeth,
Ein byd gan anwybodaeth.
Drwg a'i dras dewisasom,
Ar ddaioni ffroeni'n ffrom.
Dewis, nid golau diwall
Yn nhes dydd, ond nos y dall,
Rhyfel yn gawr sy'n rhwyfaw
Fal tonnau'r aig, fal draig draw;
A'i ddefawd iddo'n ddifyr
Bod dros ei draed mewn gwaed gwŷr.
Ar ben pob cam rhy'r fflam fflwch;
Gwae'r eiddil a gâr Heddwch!

Er maint ein gwae mae i'n mysg
A gâr Hedd, a gair Addysg.
Er maint budredd llygredd llwyr,
Yma soniant am synnwyr
A diball wawl cydwybod,
Gair ei Naf, y Gwir a'i nod.

Dyred, o Dangnef dirion,
Ac â'th gais a'u llais yn llon.
O'n beiau (drwg yw'r bywyd)
I'r iawn bwyll arwain y byd.

Dangos dy ben ysblennydd
O'th nef, O Dangnef, i'n dydd.
Llef gadarn sy'n galw arnad
Yn glaer o bob cwr o'n gwlad.
Dyred, mae'r doeth yn d'aros
Mal claf am yr haf a'i ros,
Tro'n ôl wrth arch ein dolef
I'n daear ni o dir nef.



Copyright 1926 by W.S.Gwynn Williams All rights reserved
Copyright 1939 by
The Gwynn Publishing Co.
THE GWYNN PUBLISHING CO.
LLANGOLLEN, N. WALES
For all Countries
All rights reserved

Bydd ystafelloedd gwisgo'r Orsedd yng nghefn y Pafiliwn.
Dymunir i holl aelodau'r Orsedd sylwi ar y dyddiau a'r amserau hyn, ac ymdrechu i ddyfod i'r cyfarfodydd y meddant hawl i fod ynddynt.

Dydd Llun 2 Awst

Yr Orsedd Agored

(a)	Ymwisgo yng nghefn y Pafiliwn	10.00 a.m.
(b)	Cychwyn yr orymdaith	10.30 a.m.
(c)	Agor yr Orsedd	11.00 a.m.

Coroni'r Bardd

(a)	Ymwisgo yng nghefn y Pafiliwn	3.30 p.m.
(b)	Defod y Coroni, Pafiliwn yr Eisteddfod	4.30 p.m.

Dydd Mawrth 3 Awst

Bwrdd yr Orsedd

Pabell y Cymdeithasau 2	10.00 a.m.

Dydd Mercher 4 Awst

Cyfarfod cyffredinol blynyddol yr Orsedd	10.00 a.m. Pabell y Cymdeithasau 2
Cyfarfod cyffredinol Llys yr Eisteddfod	1.00 p.m. Pabell y Cymdeithasau 2

D.S. – Y mae pob aelod o'r Orsedd yn aelod o'r Llys gyda hawl i bleidleisio yn y cyfarfod hwn, a disgwylir i chwi fod yn bresennol

Seremoni'r Prif Lenor Rhyddiaith

(a)	Ymwisgo yng nghefn y Pafiliwn	3.30 p.m.
(b)	Seremoni'r Prif Lenor Rhyddiaith, Pafiliwn yr Eisteddfod	4.30 p.m.

Dydd Gwener 6 Awst

Yr Orsedd Agored

(a)	Ymwisgo yng nghefn y Pafiliwn	10.00 a.m.
(b)	Cychwyn yr orymdaith	10.30 a.m.
(c)	Agor yr Orsedd	11.00 a.m.

Cadeirio'r Bardd

(a)	Ymwisgo yng nghefn y Pafiliwn	3.30 p.m.
(b)	Defod y Cadeirio, Pafiliwn yr Eisteddfod	4.30 p.m.

Os bydd y tywydd yn anffafriol fore Llun neu fore Gwener, cynhelir y seremoni yn y Babell Lên ar faes yr Eisteddfod.

I'w hurddo fore Llun 2 Awst 2010.

Urddir ar gyfrif eu graddau yn cynnwys astudiaethau Cymraeg neu Gerddoriaeth:

Urdd Llenor
Mary Elizabeth Ann Davies, Aberaeron
Stephen Paul Davison, Rogerstone, Casnewydd
Mair Bebb Jones, Bangor
Llŷr Gwyn Lewis, Caernarfon
Carol Mair Thomas, Llanwnnen, Llanbedr P. S.
Charles Wilson, Drayton, Norwich

Penri Tanad
Cofiadur

ARHOLIADAU GORSEDD Y BEIRDD 2010

Llwyddodd yr ymgeiswyr a ganlyn yn arholiadau Gorsedd y Beirdd eleni, ac urddir hwy gan yr Archdderwydd fore Llun, 2 Awst 2010 mewn gorsedd agored yn Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd:

Urdd Ieithydd (Gwisg Las)
Mari Edwards (Mari o Nedd), Castell-nedd
Stuart Imm (Cerigle), Coedeva, Cwmbrân
Gillian Taylor Walker (Gill Caeron), Sarn Mellteyrn, Pwllheli

Urdd Iaith Ofydd (Gwisg Werdd)
David Gwynfor Samuel, Pant, Merthyr Tydfil

Urdd Llên Ofydd (Gwisg Werdd)
Caroline Margaret Jean Williams, Llangyndeyrn, Cydweli

Gwyn o Arfon
Trefnydd yr Arholiadau

Enillwyr Llwyfan
Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Caerdydd 2009

Lleucu Fflur Hughes
Enillydd y Goron

Enillwyr Llwyfan
Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r Cyffiniau 2009

Urdd Ofydd er Anrhydedd

Trebor Lloyd Evans, Tŷ Nant, Corwen, Sir Ddinbych
Enillydd Gwobr Goffa David Ellis

Trystan Llŷr Griffiths, Clunderwen, Sir Benfro
Enillydd Gwobr Goffa Osborne Roberts

Jocelyn Freeman, Tyddewi, Sir Benfro
Enillydd Rhuban Glas Offerynnol dros 19 oed

Gwydion Rhys, Clunderwen, Sir Benfro
Enillydd Gwobr Richard Burton

Meggan Lloyd Prys, Rhiwlas, Bangor, Gwynedd
Enillydd Dysgwr y Flwyddyn

Elin Williams, Cwm-ann, Ceredigion
Enillydd Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn

Menna Cazel Davies, Pontypridd
Enillydd Gwobr Goffa Osborne Roberts
Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch 2008

Urdd Derwydd er Anrhydedd

Siân Melangell Dafydd, Llwyneinion, Y Bala, Gwynedd
Enillydd y Fedal Ryddiaith

Elfyn Lewis, Caerdydd
Enillydd Medal Aur am Gelfyddyd Gain

Lowri Davies, Caerdydd
Enillydd Medal Aur am Grefft a Dylunio

Suzie Horan, Llantrisant
Enillydd Medal Aur am Grefft a Dylunio
Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch 2008

I'w derbyn i Urdd Derwydd er anrhydedd ar gyfrif gwasanaeth maith ac arbennig i'r Orsedd a'r Eisteddfod

Eric Jones (Moelfryn), Pontarddulais
Rhys Jones (Rhys), Prestatyn
Rhian Medi Roberts (Rhian Medi), Llundain
Huw Williams (Huw Postman), Bwlchtocyn

I'w hurddo fore Gwener 6 Awst yn
Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd 2010

(i) Urdd Ofydd er Anrhydedd

Ganwyd a magwyd **Eirlys Mair Bebb** yn Bethnal Green yn Nwyrain Llundain, lle y bu ei theulu ym myd busnes. Dilynodd hithau yrfa ym myd addysg cyn ymddeol yn gynnar a mynd i weithio i Fwrdd Croeso Cymru yn Piccadilly. Mae ei chyfraniad i fywyd Cymraeg Llundain yn enfawr trwy'r Capel, Yr Ysgol Gymraeg, Y Cymrodorion a Chymdeithas Cymry Llundain.

Enw cyfarwydd i garedigion yr Eisteddfod Genedlaethol yw **Dylan Cernyw**, **Bae Colwyn**. Mae'n delynor dawnus, yn athro teithiol ac yn aml ei gymwynasau i Eisteddfodau mawr a bach. Y mae ei gyfraniad i'w genedl yn amlwg trwy ei waith gyda'r Eisteddfod Genedlaethol ac Ysgol Glanaethwy. Bu hefyd yn gefnogol iawn i'r Ŵyl Ban Geltaidd ers yr 80au.

Mae hanes **Robert Hughes, Treharris** yn un hynod dros ben. Dechreuodd ddysgu'r Gymraeg yn 1997 a daeth yn siaradwr rhugl ymhen byr o dro. Yn wir, daeth y Gymraeg yn rhan annatod o'i fywyd. Erbyn hyn, mae'n gonglfaen ffyniant y Gymraeg yn ei gymdeithas ym mhentref Beddllwynog, trwy sefydlu dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion, ac addysgu tua 50 o bobl bob wythnos. Sefydlodd hefyd lyfrgell Gymraeg yn y pentref. Mae yn awr yn ymwneud â phrosiect i ddatblygu hen gapel Beddllwynog yn Ganolfan Cymraeg.

Un a roddodd oes o wasanaeth diflino i'w famiaith a'i buddiannau yw **David Bryan James, Caerdydd,** ond brodor o Alltwalis yn Sir Gâr ydyw. Bu'n Ddirprwy Gyfarwyddwr Uned Iaith Genedlaethol Cymru, yn Bennaeth Ysgol Gyfun Rhydfelen ac yn weithgar fel Prif Arholwr Cymraeg fel Ail Iaith dros Gyd-bwyllgor Addysg Cymru. Mae'n bleser gan yr Orsedd hefyd gydnabod ei gyfraniad i'r Urdd dros y blynyddoedd ac i fywyd Cymraeg Caerdydd.

Rhoddodd **Ela Jones, Ysbyty Ifan** wasanaeth arbennig i'r Orsedd fel gwniadwraig, cynllunydd a gwneuthurwraig. Sefydlodd Gwmni Cwlwm i gefnogi'r economi leol a'r diwylliant Cymreig, trwy gynnig Gwasanaeth Priodas Gymreig. Ela Jones yw'r unig hetiwr Cymreig yng Nghymru a Phrydain. Ar ben hyn i gyd, mae'n hynod o weithgar yn y gymuned leol, yn arbennig trwy iddi ail-agor Swyddfa Bost y pentref, er budd i'r gymdeithas gyfan.

Un arall a roddodd wasanaeth arbennig i'w fro yw **David Ryan Lee, Porth Tywyn** a fu'n brifathro Ysgol Gynradd Pontarddulais hyd ei ymddeoliad yn 1997. Yn ogystal â hynny, mae wedi cyflawni 30 mlynedd o wasanaeth i Gymdeithas Opera Porth Tywyn fel Arweinydd y Corws i ddechrau, ac yna o 1981, fel Cyfarwyddwr Cerdd y cwmni. Mae'n arwain Cymanfaoedd a Chyngherddau ac yn sylfaenydd "Noson Garolau yn y Gymuned" sy'n ddigwyddiad blynyddol erbyn hyn ym Mhorth Tywyn.

Cefnogodd **Edith McDonald, Chubut, Y Wladfa**, pob achos Cymraeg a Chymreig yn y Wladfa ar hyd y blynyddoedd a bu'n aelod o bwyllgorau sefydliadau megis Cymdeithas Dewi Sant ac Eisteddfod y Wladfa. Adnabyddir hi yng ngorsedd y Wladfa fel 'Edith Bryn Alaw. Anrhydeddir hi eleni drwy gael ei gwahodd i fod yn Arweinydd y Cymry Tramor yn EIsteddfod Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd yng Nghlyn Ebwy.

Disgrifir **Mel Morgans, Rhydaman** fel "dyn prysur – a Chymro i'r carn" a hawdd gweld pam wrth ystyried ei gyfraniad i ddiwylliant ei fro. Bu'n ymwneud ag Aelwyd Aman am flynyddoedd fel Arweinydd ac yna fel ymddiriedolwr, yn aelod o Fenter Iaith Sir Gaerfyrddin ac yn hynod o weithgar fel actor a chyfarwyddwr Cwmni Drama'r Gwter Fawr. Yn ogystal â hyn i gyd, mae'n aelod o Gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Brynaman ac yn Gadeirydd y Papur Bro, Glo Mân.

Un a dderbyniodd hyfforddiant yn Ysgol Gerdd y Guildhall ac Ysgol Lwyfan Italia Conte yw **Mair Roberts, Pendeulwyn**. Dychwelodd i Gymru yn 1966 i weithio ym myd y teledu. Yn 1970 ffurfiodd grŵp o gantorion a ddatblygodd maes o law i fod yn gôr Cantorion Creigiau. Eleni bydd y côr yn dathlu 40 mlynedd ers ei sefydlu, a Mair sydd wedi arwain y côr gydol y cyfnod hwn. Mae ei chyfraniad fel beirniad ac unawdydd ar lwyfannau cenedlaethol a rhyngwladol yn arwydd o'r parch sydd iddi fel cerddor amryddawn.

Pennaeth Ysgol Gymraeg Dewi Sant, Llanelli yw **Gethin Thomas, Cross Hands**, ond mae ei gyfraniad yn ymestyn y tu allan i ffiniau'r ysgol honno. Bu'n weithgar dros y blynyddoedd gyda mudiad y Ffermwyr Ieuanc yn lleol ac yn sirol. Ar hyn o bryd, ef yw Cadeirydd Menter Iaith Cwm Gwendraeth. Ef hefyd oedd Is-Gadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod genedlaethol yr Urdd yn Sir Gâr yn 2007. Mae'n Arweinydd cyson mewn Eisteddfodau a Nosweithiau Llawen ac yn gyfrannwr i raglenni radio a theledu.

Un o dref Caerfyrddin yw **Ion Dafydd Thomas, Caerdydd**. Graddiodd gydag anrhydedd yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor cyn cael ei benodi i swydd dysgu yng Nghwmtawe. Yn dilyn cyfnod yn dysgu yn Ysgol Pantycelyn, fe'i penodwyd yn Bennaeth Adran y Gymraeg yn Ysgol Gwynllyw Pontypŵl. Mae'n llais cyfarwydd i'r rhai sy'n gwylio gemau pêl-droed yn Stadiwm y Mileniwm gan mai ef yw'r cyhoeddwr swyddogol. Bu'n weithgar iawn gydag amryw o bwyllgorau Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd a Chaerdydd.

Awdur toreithiog ym myd llyfrau gwyddoniaeth i blant a meysydd llafur yw **Melfyn Richard Williams, Llanuwchllyn**. Bu'n athro gwyddoniaeth yn Ysgol y Gader Dolgellau am flynyddoedd lawer ac yn arloeswr yn yr ymgyrch i sefydlu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyhoeddodd dros 30 o lyfrau Cymraeg yn ymwneud â thestunau gwyddonol i blant. Mae'n hynod o weithgar yn ei ardal leol fel darlithydd ac ym myd y ddrama. Ef yw Swyddog Gweithredol Cymdeithas Bob Owen ac mae'n olygydd a chysodwr Y Casglwr, Cylchgrawn y Gymdeithas, ers 1997.

(ii) Urdd Derwydd er Anrhydedd

Hyfrydwch arbennig yw cael anrhydeddu **Jill Evans**, **Llwynypia**, i'w hurddo'n aelod o Orsedd y Beirdd. Gwneir hynny'n arbennig oherwydd ei chyfraniad nodedig, yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac achos Cymru yn Ewrop. Ganed Jill Evans yn Ystrad, Cwm Rhondda. Wedi ymserchu yn y Gymraeg, yn Ysgol Ramadeg Tonypandy, lle y dysgodd hi'r iaith, graddiodd mewn Cymraeg ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth. Derbyniodd M Phil gan Gyn-Bolytechnig Pontypridd am draethawd ar gynllun arholi i oedolion sy'n dysgu'r Gymraeg. Yn 1999 fe'i hetholwyd i Senedd Ewrop fel aelod dros Plaid Cymru. Gwyddom am ei gwaith yn ceisio sicrhau heddwch a chyfiawnder yn Ewrop a'r byd. Yn 2005, hi oedd y person cyntaf i annerch Senedd Ewrop yn Gymraeg.

Ganed **Tim Rhys-Evans, Caerdydd** yn Nhredegar Newydd sydd o fewn dalgylch yr Eisteddfod eleni. Daeth i'r amlwg fel Cyfarwyddwr Cerdd Côr Only Men Aloud yn dilyn llwyddiant y côr hwnnw yng nghystadleuaeth Last Choir Standing ar BBC 1 trwy Brydain. Maent bellach yn perfformio ar draws y byd ac wedi rhyddhau sawl cryno ddisg gan gyrraedd rhif un yn siartiau clasurol Prydain. Bu Tim hefyd yn Arweinydd Côr Serendipity ac fe enillodd y côr hwnnw gystadleuaeth Côr Cymru yn 2005. Erbyn hyn, mae wedi meistroli'r iaith Gymraeg a bu'n un o feirniaid corawl yr Eisteddfod yn yr Wyddgrug yn 2007.

Yn wreiddiol o Lanbrynmair, mae **Ann Fychan,** bellach yn byw yn **Abercegir** ger Machynlleth. Mae Ann yn un o bileri'r gymdeithas, yn hyfforddi plant a phobl ifanc i lefaru mewn Eisteddfodau mawr a bach ac yn ymwneud â phob agwedd o fywyd diwylliannol ei bro. Mae'n aelod o bwyllgor llefaru cenedlaethol yr Urdd ac o Gyngor Llefaru yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'n llais cyfarwydd ar raglen Talwrn y Beirdd Radio Cymru, fel aelod o dîm llwyddiannus Bro Ddyfi.

Fel 'dyn y pethe yn ei fro', y disgrifir **Ian Lloyd Hughes**, **Y Bala** a ddaw yn wreiddiol o Gaernarfon. Mae'n gyn-bennaeth Ysgol Ffridd y Llyn, yn rhoi o'i amser i hyfforddi plant a phobl ifanc i lefaru, yn feirniad cenedlaethol ac yn arweinydd eisteddfodau. Bu'n ysgrifennydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod Genedlaethol ddwywaith: Meirionnydd 1997 a 2009, yn ogystal â bod yn Gadeirydd Pwyllgor y Celfyddydau Gweledol. Bu'n cynnal adran bentref yr Urdd am flynyddoedd maith.

Mae **Angharad Mair, Llanbedr y Fro**, yn wyneb a llais cyfarwydd i wylwyr teledu Cymraeg. Dechreuodd ei gyrfa gyda'r BBC, lle y bu'n cyflwyno'r rhaglen 'Bilidowcar' cyn symud i'r Adran Newyddion. Ym 1990 symudodd i weithio i Gwmni Agenda lle bu'n cyflwyno'r rhaglen 'Heno'. Ers sawl blwyddyn bellach, mae Angharad yn un o Gyfarwyddwyr cwmni Tinopolis ac mae hi i'w gweld yn aml ar raglen 'Wedi 7'. Yn ogystal â bod yn un o sêr y byd teledu, mae hi'n redwraig o frig ac hi oedd yr unig siaradwr Cymraeg i gynrychioli Prydain ym Mhencampwriaethau Athletau y Byd yn Athen yn 1997.

Enw sy'n dod a gwên i'r wyneb yw **Dewi Pws Morris**, **Tresaith**. Fe'i ganed yn Nhreboeth, Abertawe, a daeth yn gyntaf i sylw Cymru gyfan wrth gymryd rhan yng ngwieithgareddau Aelwyd yr Urdd Treforys. Bu'n aelod o sawl grŵp pop, gan gynnwys Y Tebot Piws ac yna Edward H. Dafis. Mae'n actor, bardd a chomedïwr, ac enillodd wobr y cyflwynydd gorau am ei raglen 'Byd Pws' gan y Royal Television Society yn 2003. Mae cyfraniad Dewi Pws i'w genedl yn amlwg i bawb. Mae'n un o'r bobl prin hynny sy'n llwyddo i wneud i ni chwerthin yn iach a mwynhau ein Cymreictod.

Esgob Catholig Wrecsam yw **Edwin Regan, Wrecsam**. Fe'i ganed ym Mhorth Talbot a bu'n fyfyriwr ar gyfer yr offeiriadaeth yn Seminari S. Ioan, Waterford, yn Iwerddon. Wrth ymateb i'r galw i allu addoli yn Gymraeg yn y De, dechreuodd ddathlu'r offeren yn Gymraeg yn eglwys Sant Cadog yn y Bont-faen, a hynny bellach 38 mlynedd yn ôl. Mae'r Esgob Regan yn cadeirio nifer o bwyllgorau Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr. Yn 2009, dathlodd hanner can mlynedd yn yr offeiriadaeth.

Enw cyfarwydd arall i garedigion yr Eisteddfod yw **Geraint Roberts**, **Prestatyn**. Graddiodd yng Ngholeg Cerdd Llundain cyn dilyn gyrfa ym myd addysg. Yn gyn-bennaeth adran gerdd Ysgol Uwchradd Emrys ap Iwan Abergele, fe'i penodwyd yn Ddirprwy Bennaeth yr ysgol beth amser yn ôl. Yn ogystal â bod yn organydd o fri, mae'n Arwain Côr Trelawnwyd ers naw mlynedd ar hugain, yn feirniad cenedlaethol ac yn arweinydd Cymanfaoedd. Yn aelod o Banel Sefydlog Cerdd yr Eisteddfod Genedlaethol, mae ei gyfraniad a'i ffyddlondeb i'r Eisteddfod yn arbennig iawn.

O Fynytho ym Mhen Llŷn y daw **Eurwyn Wiliam, Caerdydd** yn wreiddiol. Mynychodd Brifysgol Cymru Caerdydd, gan ennill gradd dosbarth 1af mewn Archaeoleg. Enillodd ddoethuriaeth am astudiaeth o adeiladau fferm yng Ngogledd-ddwyrain Cymru. Bu'n Guradur Amgueddfa Werin Cymru ac yna'n Is-Gyfarwyddwr Amgueddfa Cymru cyn ymddeol yn 2009. Bu yn allweddol yn trawsnewid yr Amgueddfa Werin yn amgueddfa gyfoes, berthnasol i fywyd Cymru gyfan. Cyhoeddodd nifer o lyfrau pwysig yn ymwneud ag adeiladau hynod Cymru.

Ganwyd **Mary Wiliam, Caerdyddd** yn Nhredegar, sy'n ei gwneud hi'n un o ferched bro'r Eisteddfod Genedlaethol eleni. Dysgodd Gymraeg, gan ennill gradd dosbarth cyntaf yn yr iaith yng Ngholeg Prifysgol Cymru Caerdydd. Fe'i hapwyntiwyd yn ymchwilydd yn Adran y Tafodieithoedd a Thraddodiadau Llafar yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Enillodd radd MA am draethawd ar iaith lafar ardal Tafarnau Bach, Sir Fynwy. Cyhoeddodd nifer o gyfrolau ar ddywediadau a diwylliant materol ac mae hi hefyd yn ddarlithydd poblogaidd dros ben.